# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 10 Mawrth 2016 i'w hateb ar 16 Mawrth 2016

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1.** Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am safonau addysg ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)2786(FM)

**2.** Julie Morgan (Gogledd Caerdydd): Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i wella gwasanaethau iechyd meddwl yn ne Cymru? OAQ(4)2778(FM)

**3.** Nick Ramsay (Mynwy): A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu perfformiad ei uned cyflenwi dros dymor y pedwerydd Cynulliad? OAQ(4)2777(FM)

**4.** Sandy Mewies (Delyn): Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi prentisiaethau fel elfen allweddol o'r broses o fynd i'r afael â diweithdra ymysg pobl ifanc? OAQ(4)2784(FM)

**5.** Eluned Parrott (Canol De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am argaeledd lleoedd ysgol yng Nghaerdydd? OAQ(4)2785(FM)

**6.** Aled Roberts (Gogledd Cymru): Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i annog grwpiau cymunedol i gymryd rhan yn y broses o restru adeiladau o arwyddocâd hanesyddol a lleol? OAQ(4)2787(FM)

**7.** Altaf Hussain (Gorllewin De Cymru): Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â cholli apwyntiadau yn y GIG yng Nghymru? OAQ(4)2774(FM)

**8.** Jeff Cuthbert (Caerffili): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymdrechion Llywodraeth Cymru i ddenu swyddi gweithgynhyrchu tra medrus i Gymru? OAQ(4)2770(FM)

**9.** Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r iaith Gymraeg? OAQ(4)2783(FM)**W**

**10.** Janet Haworth (Gogledd Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ddiogelu plant a phobl ifanc ar-lein? OAQ(4)2779(FM)

**11.** Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru): Beth yw etifeddiaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer trechu tlodi yng Nghymru? OAQ(4)2776(FM)

**12.** Ann Jones (Dyffryn Clwyd): Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi pobl hŷn yn Nyffryn Clwyd? OAQ(4)2782(FM)

**13.** William Graham (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am strategaeth Llywodraeth Cymru i feithrin entrepreneuriaid ifanc yng Nghymru? OAQ(4)2773(FM)

**14.** Andrew RT Davies (Canol De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog gadarnhau nifer y cwmnïau gwasanaethau ariannol sydd wedi adleoli i ardaloedd menter Caerdydd? OAQ(4)2771(FM)

**15.** Peter Black (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i liniaru ar golli swyddi yn Tata Steel? OAQ(4)2768(FM)